

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar  
Zoom  
Nos Fawrth, Tachwedd 10, 2020 am 7:30yh o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Simon Evans, Carwyn Evans, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, Gethin Williams a John Hughes. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Llinos Williams, Gareth Ellis.

**2. Datgan diddordeb:**

Roedd Gethin Williams yn datgan diddordeb ynglyn ag Eitem 4, Eitem 5.c. 'Materion Ariannol' ac Eitem 8.b. i a ii. 'Ceisiadau cynllunio'.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 13, 2020**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Hydref 13, 2020**

Eitem 11.a. Mae angen cadarnhau ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau'r Fynwent, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad. Penderfynwyd i'r aelodau cael y polisiau o wefan y Cyngor.

Penderfynwyd bod y polisiau yn gywir.

Eitem 5.c. Llythyr (19/10/2020) oddi wrth Mr J. Ll. Williams yn rhestru'r llwybrau oedd yn cael eu trin ganddo. Mae'r llwybrau yn cael eu trin dwywaith y flwyddyn. Mae wedi rhoi gwybod i John Williams fydd rhaid iddo gael yswrians 'Public Liability' i wneud y gwaith.

Penderfynwyd trafod y mater ymhellach.

Eitem 11.d. Llythyr (21/10/2020) oddi wrth Swyddog Cofrestru, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd angen roi gwybod iddo pryd fydd Carwyn wedi ymddiswyddo i drefnu Rhybudd.

Eitem 6.b. Anfonwyd (20/10/2020) i BDO tudalen 2 o gofnodion Mai 8, 2018; tudalen 2 o gofnodion Gorffennaf 10, 2018; tudalen 2 o gofnodion Ionawr 8, 2019; tudalen 2 o gofnodion Ebrill 9, 2019; a thudalen 2 o gofnodion, Mehefin 9, 2020.

Eitem 10.b. Maent am roi sylw i'r materion rhoddwyd iddynt am gasglu gwastraff.

Eitem 11.c. Rhoddwyd gwybod i Meurig Ashton i lanhau hefyd ffenestri lloches bws sydd wrth Pont Wnin.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION TACHWEDD 10, 2020

Eitem 5.a. Trwy law Gethin Williams gafwyd wybod bod Cyngor Gwynedd am ymweld y toiledau yn fuan. Rhoddwyd gwybod i Cyngor Gwynedd (5/11/2020) bod agoriadau'r toiledau ar gael gan y Clerc,

Penderfynwyd i'r toiledau cael eu trosglwyddo i Cyngor Gwynedd os ni chlywir ganddynt am eu hymweliad â'r toiledau.

## **5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.

Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisio (Valuation Office Agency) i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.

Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisio drwy 03000 505505 neu [ratingwales@voa.gsi.gov.uk](mailto:ratingwales@voa.gsi.gov.uk). Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (21/10/2020) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi manylion cyflog newydd y Clerc.

Taliad misol i'r Clerc: £102.40.

Taliad misol i Cyllid a Thollau EM: £25.40

Cyfanswm:  $12(\pounds102.40 + \pounds25.40) = \pounds1,533.60$  (Gweler Cofnodion Medi 8, 2020, Eitem 5.e.).

c. Llythyr (17/10/2020) oddi wrth Cerebral Palsy Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Derbyniwyd bil (22/10/2020) am £20.00 oddi wrth RBI Poppy Appeal am 'type B wreath'.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Derbyniwyd (2/11/2020) £841.17, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau 2020/2021.

dd. Bil (3/11/2020) am £150.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at daliad gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer cyfrifon 2019/2020.

Penderfynwyd talu'r bil.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION TACHWEDD 10, 2020

e. Anfonwyd copi o ‘Sefyllfa ariannol y Cyngor sy’n debygol am weddill y flwyddyn gan ddefnyddio ffigyrau 2019-2020’ i’r aelodau.

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda’r adroddiad.

f. Balans yn y banc ar 29 Hydref 2020: £12,037.73. (29 Hydref 2019: £10,775.64).

## **6. Archwilio**

a. Dogfen (23/10/2020) oddi wrth Archwilio Cymru ar “Trefniadau Archwilio ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn y dyfodol.” Mae’r ddogfen yn rhoi y trefniadau at archwilio cyfrifon ar gyfer 2020 – 2021 a’r blynyddoedd canlynol.

Anfonwyd y ddogfen i’r aelodau.

Mae angen newid trefniadau'r broses o archwilio oherwydd methiant rhai cynghorau i fodloni safonau gofynnol. O 2020 - 2012 ymlaen bydd yr archwiliad yn cael ei wneud pob tair blynedd os bydd sefyllfa’r Cyngor yn foddhaol. Fel arall bydd yr archwiliad ar y flynyddol gydag archwiliad ychwanegol os bydd angen.

## **7. Mynwent Llanelltyd**

### **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/65/29E. Estyniad i adeilad amaethyddol presenol. Fferm Bryn Melyn, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi’r cais (3/11/2020).

ii. NP5/65/352B. Gosod 5 pod campio ar gyfer defnydd gwyliau tymor byr ynghyd a gwaith cysylltiedig. Dwynant, Bontddu. Cefnogwyd y cais ar 5/10/2020.

Mae’r cais yn cynwys plan diwygiedig.

Penderfynwyd cefnogi’r cais (10/11/2020).

b. Llythyr (6/11/2020) yn rhoi gwahoddiad am lansiad Cynllun Eryri ac i lansiad rhaglen newydd Llysgennad Eryri. Bydd y digwyddiad ar ddydd Llun 26/11/2020 am 10.00yb ar Zoom.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i’r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION TACHWEDD 10, 2020

c. Penderfynwyd trafod sut i drin ceisiadau cynllunio yn ein cyfarfod mis nesaf..

## **9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (22/10/2020) oddi wrth BT Enterprice yn cynwys contract i'w gwblhau i fabwysiadu blwch ffôn yn Bontddu. (Gweler Cofnodion Medi 8, 2020, Eitem 9.d.).

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau i gael gwybod os maent yn dymuno cwblhau'r contract.

Bydd angen arwyddo'r contract gan y Cadeirydd, Swyddog (Clerc) a swyddog arall (?). A thalu £1.

Penderfynwyd i Gethin Williams arwyddo'r contract, a thalu'r £1.

b. Llythyr (25/10/2020) oddi wrth Mrs Eirian Owen. Mae hi'n diolch am y gwaith cafwyd ei wneud i drwsio a glanhau llwybr Buan sy'n arwain o Bont Llanelltyd i fyny at yr hen Glwb Golff. Mae hi'n diolch hefyd i rheini oedd yn gyfrifol am y gwelliannau. Mae hi'n dymuno i ni ystyried gosod arwydd "LLWYBR BUAN" wrth geg y llwybr er mwyn i'r enw barhau ar gôf a chadw yn yr ardal.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd bod canmoliaeth ar y gwaith cafwyd ei wneud a gofyn iddynt roi ystyriaeth i osod arwydd yn dangos enw'r llwybr.

c. Llythyr (3/11/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Tachwedd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

## **10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

a. Wedi derbyn cwyn bod cyflwr Pont Vigra ddim yn dderbyniol i gerddwyr, rhoddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i roi sylw i'r mater.

b. Wedi cael gwybod bod lefel y dŵr yn codi yn raddol dros y blynyddol yn Borthwnog rhoddwyd gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru i roi sylw i'r mater.

## **11. Materion Brys**

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd:

i. mae angen ysgubo dail ar ffordd Taicynhaef i Pont Cwm Mynach, Rhiw Ty'n Coed a Ceseilgwm Mawr.

ii. mae angen llenwi twll sydd yn y ffordd rhwng Pont Garthgell a Camseifion,

ii. mae angen ysgubo dail ar y ffordd wrth Hendre Forion, Hirgwm.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION TACHWEDD 10, 2020

a. Anfonwyd neges i Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod y Cyngor wedi cael cwyn bod ceir yn parcio'n anghyfreithiol ar linell ddwbl wrth Bont Wnin / mynedfa i Neuadd Bentref Llanelltyd. Gofynnwyd iddynt i'r Warden Traffic taro yno ambell dro i gadw llygad ar y sefyllfa. (7/11/2020).

Llythyr ateb (9/11/2020) oddi wrth Tîm Parcio, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Rheolwr Llinell y Swyddogion Gorfodaeth Sifil yn trefnu i'r ardal cael ei fonitro pan mae swyddog yn yr ardal er mwyn sicrhau bod ddim gwaharddiadau parcio yn cael eu torri.

-----